

Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 — Taflen Ffeithiau 1

Henebion cofrestredig — Diffiniad o heneb, dynodi a chydsyniad heneb gofrestredig

Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 ('Deddf 2016') yw'r ddeddfwriaeth gyntaf i'w chyflwyno'n benodol ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae'n gwneud newidiadau pwysig i Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 ('Deddf 1979' — <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1979/46/contents>) a fydd yn effeithio ar sut y bydd henebion cofrestredig yng Nghymru yn cael eu dynodi, eu gwarchod a'u rheoli. Mae testun llawn Deddf 2016 a'r Nodiadau Esboniadol sy'n cydfynd â hi i'w gweld yma: <http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/4/contents/enacted/welsh>

Mae'r daflen ffeithiau hon yn disgrifio rhai o'r darpariaethau yn y Ddeddf newydd sy'n ymdrin â henebion cofrestredig ac sy'n:

- ehangu'r diffiniad o heneb;
- cyflwyno ymgynghori, gwarchodaeth interim a hawl i adolygiad i'r broses gofrestru;
- moderneiddio'r system cydsyniad heneb fel ei bod yn cyfateb yn well i'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â chydsyniad adeilad rhestredig.

Diffiniad o heneb (adran 22)

Mae Deddf 2016 yn ehangu'r diffiniad o heneb fel y bo Gweinidogion Cymru yn gallu dynodi unrhyw safleoedd lle mae tystiolaeth o weithgarwch dynol yn y gorffennol. Bydd hynny'n caniatáu i nifer bach o safleoedd o bwysigrwydd cenedlaethol, nad ydynt yn cynnwys dim byd mwy nag arteffactau ar wasgar neu olion disylwedd eraill o weithgarwch dynol, gael eu gwarchod drwy eu cofrestru. Mae'n debyg mai safleoedd cynhanesyddol o'r cyfnodau Paleolithig a Mesolithig fydd y rhan fwyaf ohonynt, ond mae'n bosibl y byddant hefyd yn cynnwys safleoedd mwy diweddar megis meysydd brwydrau hanesyddol neu domenni gwastraff diwydiannol.

Ymgynghori, gwarchodaeth interim a hawl i adolygiad (adrannau 3 a 4)

Ymgynghori

Mae Deddf 2016 wedi cyflwyno gofyniad i ymgynghori'n ffurfiol os yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu:

- cofrestru heneb,
- datgofrestru heneb, neu
- ychwanegu at ardal gofrestredig neu ei gwneud yn llai.

Rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad am eu bwriad i: berchennog heneb, meddiannydd heneb, awdurdod lleol perthnasol ac unrhyw un arall y maent yn credu bod ganddo wybodaeth arbennig neu ddiddordeb yn yr heneb benodol, neu mewn

henebion o'r fath yn gyffredinol. Rhaid caniatáu o leiaf 28 diwrnod iddynt gyflwyno sylwadau ysgrifenedig.

Gwarchodaeth interim

O ddechrau unrhyw ymgynghoriad am gynnig gan Weinidogion Cymru i gofrestru heneb neu i ychwanegu at ardal gofrestredig, bydd yr heneb honno'n cael ei gwarchod yn y cyfnod interim fel pe bai wedi'i chofrestru eisoes. Bydd, felly, yn drosedd ei difrodi neu wneud unrhyw waith heb gydsyniad heneb gofrestredig. Bydd gwarchodaeth interim yn parhau tan i Weinidogion Cymru benderfynu ar y dynodiad a rhoi gwybod i'r perchennog, y meddiannydd a'r awdurdod lleol perthnasol am y penderfyniad hwnnw. Mae rhestr o henebion sydd o dan warchodaeth interim yn cael ei chyhoeddi ar wefan Cadw: (<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/policy/historicenvironmentbill/statutorynotices/?skip=1&lang=cy>).

Os yw Gweinidogion Cymru yn dewis peidio â chofrestru heneb neu ychwanegu at ardal gofrestredig, caiff unrhyw un oedd â buddiant yn yr heneb pan ddaeth y warchodaeth interim i rym hawlio digollediad am golled neu ddifrod y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i'r warchodaeth honno. O dan y darpariaethau yn Rheoliadau Henebion Hynafol (Hawliadau am Ddigollediad) (Cymru) 2017 (<http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/641/contents/made/welsh>), rhaid cyflwyno hawliad ysgrifenedig am ddigollediad i Weinidogion Cymru ymhen chwe mis i'r dyddiad y daeth y warchodaeth interim i ben.

Hawl i adolygiad

Os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu cofrestru heneb neu ychwanegu at ardal gofrestredig, mae Deddf 2016 yn rhoi'r hawl i'r perchennog neu'r meddiannydd ofyn am adolygiad o'r penderfyniad. Mae Rheoliadau Henebion Cofrestredig (Adolygu Penderfyniadau Cofrestru) (Cymru) 2017 (<http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/643/contents/made/welsh>) yn ategu darpariaethau'r Ddeddf drwy nodi ar ba sail y ceir gofyn am adolygiad ac mae'r rheoliadau hynny'n ymdrin hefyd â materion gweithdrefnol manwl.

Dim ond ar y sail nad yw heneb o ddiddordeb cenedlaethol neu nad oes cyfiawnhad dros ychwanegu at ardal gofrestredig y ceir gwneud cais am adolygiad. Penodwyd yr Arolygiaeth Gynllunio i gynnal pob adolygiad ar ran Gweinidogion Cymru.

Rhaid i gais am adolygiad, a fydd yn cynnwys y manylion llawn am achos yr ymgeisydd, gael ei wneud ymhen 12 wythnos i'r dyddiad y daw hysbysiad dynodi Gweinidogion Cymru i law. Rhaid rhoi gwybod i unrhyw bartion â buddiant a gyfrannodd at yr ymgynghoriad gwreiddiol, ac i unrhyw bobl neu gyrff eraill y mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn ystyried eu bod yn briodol, am yr adolygiad a chânt gyflwyno sylwadau. Caiff yr Arolygiaeth Gynllunio ddewis defnyddio un neu ragor o'r dulliau a ganlyn i gynnal adolygiad:

- sylwadau ysgrifenedig,
- gwrandawriad, neu
- ymchwiliad lleol cyhoeddus.

Unwaith y bydd yr Arolygiaeth Gynllunio wedi casglu digon o dystiolaeth ac wedi gwneud penderfyniad, rhaid iddi hysbysu pob un a gymerodd ran yn yr adolygiad o'r

canfyddiadau. Rhaid i Weinidogion Cymru wneud unrhyw newidiadau i gofrestrriad heneb a allai fod yn ofynnol yn unol â phenderfyniad o'r fath.

Cydsyniad heneb gofrestredig (adrannau 5 – 10)

Mae'n drosedd gwneud bron unrhyw waith ar heneb gofrestredig heb gael caniatâd yn gyntaf ar ffurf cydsyniad heneb gofrestredig a roddir gan Wasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw) ar ran Gweinidogion Cymru. Gellir gwneud mathau penodol o waith o dan un o'r cydsyniadau dosbarth a ddiffinnir yng Ngorchymyn Henebion Hynafol (Cydsyniadau Dosbarth) 1994 (<http://www.legislation.gov.uk/ukxi/1994/1381/contents/made>) — er enghraifft, mathau penodol o waith amaethyddol a gwaith coedwigaeth a wnaed yn gyfreithlon yn yr un lleoliad yn ystod y chwe blynedd blaenorol.

Mae Deddf 2016 yn addasu'r system cydsyniad henebion cofrestredig mewn nifer o ffyrdd er mwyn ei moderneiddio ac er mwyn sicrhau ei bod yn cyd-fynd yn well â'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi cydsyniad adeiladau rhestredig.

Gweithdrefn symlach er mwyn cael cydsyniad heneb gofrestredig (adran 5)

Mae Deddf 2016 yn gwneud darpariaeth ar gyfer gweithdrefn symlach er mwyn cael cydsyniad heneb gofrestredig. Mae Rheoliadau Henebion Hynafol (Ceisiadau am Gydsyniad Heneb Gofrestredig) (Cymru) 2017 (<http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/642/contents/made/welsh>) yn datgan mai dim ond ar gyfer mathau penodol o fân waith y bydd y weithdrefn ar gael. Mewn achosion o'r fath, os yw Cadw a'r ymgeisydd yn fodlon defnyddio'r weithdrefn symlach, ni fydd angen gwneud cais llawn am gydsyniad. Er hynny, bydd Cadw yn dal i ddarparu cydsyniad heneb gofrestredig ysgrifenedig.

Cydsyniad i gadw gwaith anawdurdodedig (adran 6)

Mae Cadw yn gallu rhoi cydsyniad i gadw gwaith anawdurdodedig a wnaed ar heneb gofrestredig. Anaml y bydd hynny'n digwydd, a dim ond mewn sefyllfaoedd lle bydd y gwaith o fudd i'r heneb. Nid yw hwn yn fater o gyflwyno dewis arall yn lle cael cydsyniad priodol ymlaen llaw ar gyfer gwaith ar heneb gofrestredig. Nid yw'n rhoi cydsyniad ôl-weithredol ar gyfer y gwaith anawdurdodedig, a gallai hwnnw barhau i fod yn destun camau cyfreithiol.

Gwrthod ceisiadau a ailadroddir (adran 8)

Caiff Cadw wrthod ystyried cais am gydsyniad heneb gofrestredig os cafodd cais tebyg ei wrthod o fewn y ddwy flynedd flaenorol neu os oes cais wrthi'n cael ei ystyried.

Dewis ffordd o dderbyn sylwadau (adran 9)

Cyn penderfynu a ddylid rhoi cydsyniad heneb gofrestredig ai peidio, mae gan Weinidogion Cymru y disgresiwn i gynnal ymchwiliad cyhoeddus lleol, neu benodi unigolyn i gynnal gwrandawriad, neu dderbyn sylwadau ysgrifenedig. Pa ddull bynnag a ddewisir, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried yr holl sylwadau a gyflwynir.

Ymwadiad

Nid yw'r daflen wybodaeth hon yn rhoi dehongliad cyfreithiol awdurdodol o ddarpariaethau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. Am ymdriniaeth o faterion cyfreithiol, dylid cyfeirio'n uniongyrchol at destun y Ddeddf, sydd ar gael yma: <http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/4/contents/enacted/welsh>

Darpariaethau eraill yn Neddf 2016 sy'n ymdrin â henebion cofrestredig

Mae taflen ffeithiau 2 yn darparu gwybodaeth am y darpariaethau yn y Ddeddf sy'n ymdrin ag amddiffyniadau rhag gorfodi statws heneb gofrestredig ac â hawliau mynediad.